# Y Dinesydd

Mai 2011 Rhif 357 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog

# Ymgyrch Sêr Cymru

Mae sêr y byd cerddoriaeth Gymraeg, Bryn Fôn, Elin Fflur, Brigyn, Côr Hŷn Glanaethwy a Chôr Eifionydd wedi dod at ei gilydd er mwyn recordio cân er lles Yr Ystafell Fyw, canolfan sy'n darparu man diogel ac yn cynnig amrywiaeth o raglenni seicogymdeithasol yn Gymraeg a Saesneg i bobl o ardal Caerdydd sy'n gwella o broblemau camddefnyddio sylweddau dwfn a hirdymor. Ysgrifennwyd y gân, Can Yr Ystafell Fyw, gan y cyfansoddwr Alun 'Sbardun' Huws ac fe'i cynhyrchwyd gan Bryn Fôn.



Bydd y gân, a recordiwyd yn y Gymraeg a Saesneg yn Stiwdio Sain ger Caernarfon, ar gael i'w lawrlwytho o iTunes a www.sainwales.com o hanner nos 1af Mai. Bydd fideo'r gân hefyd ar gael i'w wylio ar wefan Yr Ystafell Fyw Caerdydd:
*www.thelivingroom-cardiff.com/cymraeg ac ar www.sainwales.com*

Caiff y ganolfan newydd, a leolir yn Richmond Road, ei hagor yn swyddogol ar 8fed Medi gyda'r nod o dorri cylch dieflig dibyniaeth. Mewn amser, bydd y gwasanaeth yn cael ei ymestyn i drefi mawr ledled Cymru.

Meddai Wynford Ellis Owen, Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill: "Rwy'n ddiolchgar dros ben i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect yma. Heb eu hymroddiad a'u brwdfrydedd, ni fyddwn ni wedi cyrraedd lle rydym ni heddiw. Mae cael rhestr mor drawiadol o sêr â'r un sydd gennym ni ar gyfer y record yma yn wych, ac rwy'n siŵr y bydd pobl wrth eu boddau pan fyddant yn clywed y gân ac y bydd hi'n rhoi'r siartiau ar dân!"

Ychwanegodd Alun 'Sbardun' Huws, "Mae Yr Ystafell Fyw Caerdydd yn achos gwych. Rydw i'n bersonol wedi cael profiad o frwydro yn erbyn dibyniaeth ar alcohol ac wedi bod yn gwella ers pum mlynedd ar hugain ac rwy'n gwybod pa mor anodd y gallai dod o hyd i gyngor a chefnogaeth fod. Rwy'n falch o allu helpu mewn rhyw ffordd."

*Am ragor o wybodaeth cysylltwch â*
*Rhodri Ellis Owen, Cambrensis Communications ar 029 2025 7075*
*neu rhodri@cambrensis.uk.com w*
*neu ewch i*
*www.welshcouncil.org.uk.*

## Y Dinesydd I'r Gad!

**Apêl Ffrindiau**
**Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry**

Yn dilyn apêl Ffrindiau Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry yn rhifyn mis Mawrth o'r Dinesydd braf iawn yw gallu dweud bod sefyllfa ariannol y cylch gryn dipyn yn well bellach.

Diolch yn fawr iawn i nifer fawr o ddarllenwyr y Dinesydd am eu haelioni yn anfon sieciau atom. Mae Pwyllgor a Staff y Cylch wir yn gwerthfawrogi cefnogaeth pob un.

MUDIAD YSGOLION MEITHRIN

Hefyd cynhaliwyd noson codi arian ym mis Ebrill gyda Chwmni Calon. Codwyd £280 i'r Cylch a phawb yn mwynhau cwrdd â hen ffrindiau yn ogystal â phrynu nwyddau hyfryd Liz a Catrin. Roedd diddordeb mawr hefyd yn lluniau plant y cylch yn mynd nôl yn Nhŷ'r Cymry i 1985!

*Os hoffech gyfrannu at Ffrindiau Cylch Meithrin Tŷ'r Cymry anfonwch at Jo Knell, 62 Waterloo Road, Caerdydd, CF23 9BH. Ffôn: 02920 486677 e-bost: jo.knell@btinternet.com*



Salad Perl Las a Gellyg

ar dudalen 13

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
Richard Lewis

Golygyddion y rhifyn nesaf:
Bryan James

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Mehefin erbyn Mai 20 at:
52 Highfields, Llandaf, CF5 2QB
db.james@ntlworld.com
029 20566731

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James,
16 Kelston Rd, Caerdydd CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Ceri Morgan,
24 Cwm Gwynlais Tongwynlais,
Caerdydd, CF157HU
ceri33@btopenworld.com
029 20813812

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones,
22 Blaen-y-Coed, Radur,
Caerdydd, CF15 8RL
07985 174997

Cyhoeddir Y Dinesydd gan
Bwyllgor Y Dinesydd

Fe'i cysodir gan Siriol Haf Griffiths
a'i argraffu gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

# Rhestr Hir Llyfr y Flwyddyn 2011

Cyhoeddwyd Rhestr Hir Llyfr y Flwyddyn 2011 gan Llenyddiaeth Cymru nos Ferch-er 13 Ebrill 2011. Gwobrwyir £10,000 yr un i awduron y llyfrau gorau a gyhoed-dwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg mewn blwyddyn galendr. Y beirniaid ar y panel Cymraeg yw Simon Brooks, Gerwyn Wil-iams a Kate Crockett.

Ymysg y goreuon eleni mae Lladd Duw, nofel ddwys-dywyll ond â digon o hi-wmor ynddi gan Dewi Prysor, a nofel hirddisgwyliedig Angharad Price, Caer-saint. Mae cyfrol fuddugol y Fedal Ryddi-aith yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent 2010, sef Gwenddydd gan Jerry Hunter, yn hawlio ei lle yn y deg uchaf yn ogystal â Creigiau Aberdaron gan Gareth F. Williams.

Un casgliad o gerddi sydd wedi cyrraedd y rhestr hir eleni, sef Murmuron Trag-wyddoldeb a Chwningod Tjioclet gan Gwyn Thomas, sy'n llawn o'r dwys, y don-iol a'r direidus.

Casgliad amrywiol o ysgrifau am bob pwnc dan haul sydd gan William Owen yn ei gyfrol Cân yr Alarch, a llwyddodd Tony Bianchi i gyrraedd y rhestr gyda'i gasgliad o straeon byrion, Cyffesion Geordie Oddi Cartref, sydd ag iddynt dinc hunangofian-nol. Mae hunangofiant yr academydd a'r newyddiadurwr Ned Thomas, Bydoedd: Cofiant Cyfnod, wedi'i dewis i fod ar y Rhestr Hir a chyfrol ffeithiol Elin Haf, Ar Fôr Tymhestlog, sy'n adrodd hanes yr aw-dur allan ar y môr pan oedd yn rhwyfo ar draws dau gefnfor.

Mae'r darlledwr Hywel Gwynfryn ymh-lith yr awduron llwyddiannus eleni gyda'i gofiant i'r actor ffilm a llwyfan byd-enwog o Ynys Môn, Hugh Griffith.

Llyfr y Flwyddyn
Wales Book of the Year

Datgelir y Rhestr Fer o dair cyfrol Cym-raeg a thair cyfrol Saesneg ddydd Iau 19 Mai 2011 mewn dau ddigwyddiad arben-nig a gynhelir ar yr un pryd yn Galeri Caernarfon a Bar Espresso John Lewis, Caerdydd.

Cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni wobrwyo a gynhelir nos Iau 7 Gorffennaf 2011 yn Cineworld, Caerdydd.

*Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Llenyddiaeth Cymru:*
*029 2047 2266*
*post@llenyddiaethcymru.org*

## Agor Cylch Meithrin Newydd

Mae'r Mudiad Meithrin ("Mudiad Ys-golion Meithrin" gynt) am agor Cylch Meithrin newydd yn ardal Llandaf ym mis Mai, sef Cylch Meithrin Ystum Taf.

Bydd y Cylch Gofal ac Addysg yma i blant rhwng 2 a 5 oed ar safle'r Ti a Fi presennol: Neuadd Gospel Hall, Gogledd Llandaf (gyferbyn â safle Ysgol Gyfun Glantaf, côd post CF14 2JL ).

Mae'r newid enw o 'Mudiad Ysgolion Meithrin' i Mudiad Meithrin yn adlewyr-chu sawl peth:

• Y ffaith mai cylch meithrin a arferir bel-lach yn hytrach nag 'ysgol feithrin"

• Y newid yn rôl y Mudiad o fod yn fudi-ad a oedd yn sefydlu 'ysgolion' meithrin fel ei brif nod i ddechrau i fod yn fudiad sy'n 'meithrin' ar sawl ystyr e.e. meithrin rhieni i anfon eu plant ymlaen o'r cylch Ti a Fi i'r cylch meithrin, ac yna'r cam hol-lbwysig hwnnw o anfon eu plant ymlaen i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

• Gall 'Mudiad Meithrin' hefyd olygu bod y mudiad yn 'meithrin' eu staff drwy eu cefnogi i fod yn ymarferwyr blynyd-doedd cynnar cyfrwng Cymraeg penig-amp, a thrwy hyfforddi cannoedd o ymarferwyr newydd drwy raglen Cam wrth Gam.

• Mae hefyd yn golygu 'meithrin' balch-der yn ein hiaith a'n diwylliant wrth gwrs, gan drosglwyddo'r iaith a'n traddodiadau i'r genhedlaeth ifanc.

*Gweddill y manylion gyferbyn*

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

SIOP Y FELIN, 54 - 60 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, CF14 1DJ
CABAN, 169 Kings Road, Pontcanna, CF11 9DE
DERI STORES, 1 Wenallt Road, Rhiwbeina, CF14 6SA
VICTORIA FEARN GALLERY, 6b Heol y Deri, Rhiwbeina, CF14 6HF
HALLS, 44, Stryd Fawr, Llandaf, CF5 2DZ
HALCYON DAZE, 55 Wellfield Road, Y Rhath, CF24 3PA
SIOP LYFRAU WINDSOR, 9a Windsor Road, Penarth, CF64 1JB
FOOD FOR THOUGHT, 12 High Street, Y Barri, CF62 7EA
COFFEE LOUNGE, 38 Station Road, Llanisien, CF14 5LT
VEG VENDOR, 8 Station Road, Radur, CF15 8AA

## Colofnydd y Mis

### Dr Tom Davies

Mae hen air sy'n ein cymell i ganmol ein gwŷr enwog. Ond pa rai yn eu plith sy'n haeddu'r fath glod? Rydw i wedi hen alaru ar y clodfori parhaus a glywir yn aml ar dywysogion a saint o'r oesoedd cynnar na wyddom fawr ddim amdanynt ac ar wleidyddion y byddai'n dda petaem yn gwybod llai o'u hanes. Mae'n hyn bryd i ni gofio bod gyda ni arwyr eraill.

O'r byd meddygol, cymerer y llawfeddyg llygaid, Tudor Thomas, a oedd yn frodor o Gwm Tawe. Os bydd y darn croyw sydd ar flaen y llygad, y gornbilen (cornea), yn cymylu drosti, mae hyn yn arwain at ddallineb. Am flynyddoedd, bu ef ymhlith yr ychydig a fu'n arbrofi â'r syniad o drawsblannu darnau iachus yn eu lle. (Nid oes a wnelo hyn â philen ar y llygad - cataract - roedd triniaethau am y cyflwr hwnnw yn bod yn barod.) Soniodd un o'i gynorthwywyr o'r cyfnod cynnar hwnnw wrthyf unwaith am ei amynedd di-ben-draw yn wyneb yr anawsterau niferus a gododd ar y ffordd, ond gyda'i amynedd di-ben-draw, ennill y dydd fu ei hanes ymhen amser. Erbyn hyn, mae eraill wedi datblygu'r dechneg ymhellach a bu ei waith a rhai tebyg iddo yn fodd i ddod â goleuni newydd yn ôl yn llythrennol i fywydau niferoedd ar draws y byd.

Un arall o gewri Ysgol Feddygol Genedlaethol Cymru oedd yr Athro Jethro Gough, a aned yn Abercynon. Cyn ei amser ef, y gred oedd mai silica oedd yn achosi niwmoconiosis. Ei gamp enfawr oedd profi mai llwch glo oedd yn gyfrifol am y niwed a waned. Yn sgîl ei waith, trawsnewidiwyd yr holl syniadau a oedd yn bod am natur y dolur hwn a barodd y fath niwed.

Da yw cyfoeth – ond cofia:
Mwy na dim yw enw da.

*Ioan Brothen.*

## Cystadleuaeth Ysgrifennu Creadigol Academi Hywel Teifi

Enillydd cystadleuaeth Ysgrifennu Creadigol gyntaf, Academi Hywel Teifi Prifysgol Abertawe, yw Carwyn Graves, o'r Eglwys Newydd, Caerdydd, sy'n ddisgybl ym mlwyddyn 13 Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.



Lansiwyd y gystadleuaeth hon ar gyfer disgyblion ysgol blynyddoedd 12 a 13 ym mis Awst 2010. Cynigiwyd gwobr o £100 a dosbarth meistr yng nghwmni Dr Fflur Dafydd, Dr Christine James neu'r Athro Tudur Hallam i'r darn o waith creadigol mwyaf dyfeisgar ac addawol.

Y dasg a osodwyd oedd cyfansoddi cerdd, stori fer neu ysgrif ar y thema 'Symud Eto'. Cafwyd ymateb da i'r gystadleuaeth ac, ym marn y beirniad, Robert Rhys, darllenydd yn y Gymraeg yn Academi Hywel Teifi, roedd Carwyn yn enillydd teilwng. Meddai Robert Rhys: 'Daeth sawl cynnig addawol i law, ond roedd mwy nag addewid yn stori fer Carwyn Graves o Gaerdydd. Mae'n ysgrifennu'n raenus ac yn llawn dychymyg, gan ddefnyddio'r testun a osodwyd yn wreiddiol ac yn gyffrous. Mae'n cynnig sylwebaeth graff ar lygredd yn y gymdeithas a'r amgylchfyd yn ogystal â chyfleu teimladau'r prif gymeriad yn wyneb yr hyn sy'n digwydd.'

Astudio Cymraeg, Ffrangeg, Almaeneg a Mathemateg yn Ysgol Glantaf y mae Carwyn a dyma'r tro cyntaf iddo fentro cyflwyno darn o'i waith i gystadleuaeth ysgrifennu creadigol. Meddai: 'Mae fy niddordeb mewn llenydda yn deillio o'm diddordeb yn y byd o'm hamgylch. Mae pawb yn ymateb i'w hamgylchfyd, ac mae straeon amdano yn rhan annatod o fywyd pob un; cofnodi a mynegi hynny yr ydw i'n ei wneud wrth ysgrifennu.'

Cafodd camp Carwyn ei chydnabod mewn digwyddiad arbennig ar gampws Prifysgol Abertawe lle y cyflwynwyd y wobr iddo gan y darlledwr Huw Edwards, mab y diweddar Athro Hywel Teifi Edwards.

Mae Academi Hywel Teifi yn gobeithio'n fawr y bydd y wobr yn anogaeth i Carwyn ymroi i lenydda trwy gyfrwng y Gymraeg. Meddai Robert Rhys: 'Fyddai neb yn falchach o hynny na Hywel Teifi Edwards, ac mae'n gwbl briodol bod yr Academi sy'n dwyn ei enw yn gwobrwyo dawn Carwyn Graves.'

*Ewch i'n gwefan:*
*www.swansea.ac.uk/cy/cofrestrfa/YGymraeg/PopethynGymraeg/AcademiHywelTeifi*

*Am wybodaeth bellach am Cylch Meithrin Ystum Taf, ac i wybod sut y gallwch gefnogi'r fenter newydd yma, cysylltwch â Swyddog Datblygu Caerdydd y Mudiad Meithrin Wyn Williams ar :*
*0779 294 8429*
*neu ewch i'n cyfeiriad newydd*
*www.meithrin.co.uk*

Cyfle arbennig i fod yng nghynulleidfa Talwrn y Beirdd!

Bydd Talwrn y Beirdd yn ymweld â'r Tabernacl, yr Aes ar 17eg Mehefin i recordio dwy raglen. Bydd y noson yn dechrau am 7.15 ac yn gorffen am 9.00 y.h.
Yn ôl yr arfer, darperir paned a theisen i ddilyn – a chyfle i sgwrsio â'r beirdd.

Bydd manylion pellach yn ymddangos ar bosteri yn y dyfodol agos.

Croeso mawr i bawb.

**Capel y Rhath**

Pen-y-wain Road, Y Rhath, Caerdydd, CF24 4GG

**Oedfa Bregethu Gymraeg wythnosol**

am 3.30 brynhawn Sul yn adeilad Tabernacle Cardiff.
Darperir cyfieithiad.


Oedfa gyntaf **Mehefin y 5ed.**
Cyfarfod Gweddi – **3edd nos Iau** ymhob mis am 7.30 y.h.

**Croeso cynnes i bawb.**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag:
Alun Higham (029) 20689985 alunahelen@uwclub.net



**Ysgol Y Berllan Deg**
Jessica Green, Ella Boyle ac Ioan James yn cyflwyno Polisi Masnach Deg yr ysgol i Miss Phillips a Mrs Nia Bennett, Cadeirydd y Llywodraethwyr.



Taith Grawys Minny Street




Ysgol Coed-y-Gof



Ysgol Bro Morgannwg - Kristie Higgins a Catrin Williams





Ysgol Melin Gruffydd - Llwyddiant y tim rygbi a sioe BMX gan y cwmni Savage Skills

# Pasport



**Be' ydy dy enw di?**
Llŷr Griffiths-Davies

**O le wyt ti'n dod yn wreiddiol?**
O bentre' Rhydlewis yn Nyffryn Teifi.

**Ym mha ran o Gaerdydd wyt ti'n byw?**
Ardal Lecwydd/Treganna.

**Ers faint wyt ti'n byw yng Nghaerdy-dd?**
Ers mis Mehefin 2007.

**Beth buest ti'n ei wneud cyn symud yma?**
Symudais i Gaerdydd ar ôl cael fy mhenodi'n Swyddog Datblygu Marchnata i Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Cyn hynny bûm yn astudio gwleidyddiaeth yn y Brifysgol yn Aberystwyth cyn gweithio fel swyddog cysylltiadau cyhoeddus i gwmni FBA a Swyddog Marchnata i Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

**Beth wyt ti'n hoffi ei wneud yn dy amser hamdden?**
Ffotograffiaeth yw'r hobi diweddaraf, yn ogystal â mynd ar wyliau. Gan fod gennyf ardd erbyn hyn, mae'n siŵr y bydd angen i mi ei thrin - felly gwell i mi nodi garddio fel hobi arall!

**Be sy'n gwneud i ti chwerthin?**
Un o'm hoff raglenni comedi diweddar yw Modern Family. Dw i hefyd yn hoff o raglenni â hiwmor 'anaddas' megis Summer Heights High a chlasuron fel Fawlty Towers.

**Beth sy'n dy wylltio di?**
Baw ci ar y palmant, rhesi o draffig ond yn benodol pobl ar flaen y rhes sydd ddim yn barod i symud pan fo'r golau'n troi'n wyrdd a phobl sy'n taflu sbwriel ar lawr.

**Oes yna fannau yng Nghaerdydd wyt ti'n hoffi mynd iddyn nhw? Pam?**
Dw i'n hoff iawn o'r Bae, gan mod i'n hoff o'r gofod agored a bod ar lan y môr. Dwi wrth fy modd â Chanolfan y Mileniwm - mae'r bensaernïaeth yn arbennig a bellach gallwn fwynhau sioeau a pherfformiadau byd-enwog ar drothwy'r drws.

**Lle wyt ti'n hoffi mynd am wyliau?**
Unrhyw le heulog, gyda thraethau glân a chwmni da. Dwi'n hoffi ymweld â dinasoedd hefyd i gael blas ar ddiwylliannau gwahanol.

**Beth ydy'r peth mwyaf unigryw am Gaerdydd? Pam?**
Mae'n ddinas gyfeillgar ar y cyfan, gyda rhywun yn nabod rhywun sy'n eich adnabod chi, yn enwedig os ydych yn siarad Cymraeg. Mae'n unigryw hefyd fod y system drafnidiaeth gyhoeddus mor ddiffygiol - mae hi bron yn amhosib mynd o un pen o'r ddinas i'r llall ar fws, yn enwedig ar ddydd Sul - ond mi ddatblygith hwnnw gydag amser, gobeithio.

**Lle wyt ti'n gweld dy hun mewn deng mlynedd?**
Yng Nghaerdydd. Byddaf yn dal i brynu tocynnau lotri aflwyddiannus a brwydro gyda'r chwyn yn yr ardd ond gobeithio y bydd yn llawer haws teithio ar draws y ddinas!

# Ôl-Lwybrau

Priodferch wythnos oed oeddwn i'n dod i ymgartrefu gyntaf yng Nghaerdydd, bron 60 mlynedd yn ôl. Gan fy mod bellach wedi cyrraedd oed lle mae cofio am y pell yn llawer haws na chofio'r agos, mae pob carreg a stryd â'u hatgofion; rhai melys, rhai chwerw ond i gyd yn fyw iawn.

Mae mynd heibio i'r hen gartre ar Heol Llantrisant yn codi llanw i'r cof. Hadu blodau yn y tŷ gwydr un gwanwyn ac, wrth weld un bocsiaid yn cryfhau, fe'i gosodais yn daclus o dan y coed rhosod oedd yn amgylchynu'r sgwâr o lawnt o flaen y tŷ. Ymhen rhyw bythefnos galwodd J.E., y garddwr teledu bryd hynny, a sylwi bod fy rhesiaid o letys yn dod ymlaen yn dda !

Yno hefyd y byddem yn cynnal Pwyllgor Rhanbarth Merched Plaid Cymru. Anodd cael rhywun i warchod bob tro a'r aelodau eraill yn hel yn tŷ ni,- Meri Rhiannon annwyl o Gaerffili, Annie Humphreys hoffus ac Olwen J.E. ffyddlon, yn eu mysg. Roedd trefnu ffair Nadolig a Garddwest Haf yn uchelbwyntiau ein rhaglen a'r gefnogaeth iddynt yn eu rhoi yn uchel ar galendr cymdeithasol Caerdydd. Cofiaf Anne Clwyd yn rhoi sioe ffasiynau i'n cefnogi un tro, a galw ar fyfyriwr pensaerniol o'r enw Dafydd Iwan, fwy nag unwaith.

Yn festri Eglwys Heol y Crwys y cynhelid yr Ysgol Feithrin ar ddechrau'r 1960au a

Mr. Sing yn cludo'r plant yno. Roedd y Saesneg a ddysgodd Aled ganddo'n codi gwallt pen y ddwy Nain a ddeuai o'r Gogledd Cymreig. Bu'n rhaid bygwth ffonio Neuadd y Ddinas un tro i chwilio am gartref i Aled iddo gael siarad Saesneg yno, pryd y mynnai, gan mai bachgen bach yn siarad Cymraeg oedd i fod yn ein tŷ ni.

Erbyn hyn gallaf ddiolch i ysgolion Cymraeg Caerdydd, nid yn unig am gadw fy nau blentyn yn siarad yr iaith, ond am ddwy wyres a ŵyr sydd yn Gymry da, ac yn meddwl y byd o'u dinas.

*Rhiain Phillips*



# Hwyl a Haul yn Nant Gwrtheyrn

Y stori gyfan ar dudalen 14

## Cymdeithas yr Iaith: "Gwrandewch ar lais Cymru"




Aeth ymgyrchwyr iaith o Gaerdydd a'r cymeriad teledu plant Cyw â'u neges i Lundain yr wythnos diwethaf mewn ymdrech i atal y toriadau i S4C.

Mae Llywodraeth Prydain yn ceisio newid y gyfraith er mwyn torri ei grant i S4C o 94% ac ariannu'r sianel yn y dyfodol drwy'r BBC yn bennaf. Mae arweinwyr y pedair prif blaid yng Nghymru wedi galw ar y Llywodraeth i atal ei chynlluniau ar gyfer S4C er mwyn cynnal arolwg llawn o'r sianel. Mae 24 o fudiadau, gan gynnwys yr NUJ, BECTU, Undeb y Cerddorion, Equity ac Undeb yr Ysgrifenwyr, hefyd wedi ysgrifennu at y Llywodraeth yn galw arni i atal y cynlluniau.

Cyflwynodd aelodau lleol Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ddeiseb yn gwrthwynebu'r toriadau, wedi'i harwyddo gan dros 13,000 o bobl, i Swyddfa Cymru. Meddai Jamie Bevan, trefnydd De Cymru Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, "Mae'n amser i'r gwleidyddion wrando arnon ni. Mae Llywodraeth Prydain wedi gwrthod gwrando ar arweinwyr y pedair prif blaid yng Nghymru a nifer o fudiadau gwirfoddol sydd yn poeni am yr iaith. Nid oes angen i'r llywodraeth arbed 94% o'r arian roedden nhw'n arfer ei dalu i'r sianel, mae'n doriad gwbl annheg."

Ychwanegodd Osian Lewis, aelod sy'n byw ym Mhenarth, "Mae dyfodol ein hunig sianel deledu Gymraeg yn y fantol, sydd yn fygythiad uniongyrchol i'r iaith a'n diwylliant. Mae S4C yn wynebu toriadau enfawr a chael ei thraflyncu gan y BBC. Ar ôl 2015, does dim sicrwydd y bydd unrhyw arian yn mynd i'r sianel o gwbl. Mae hyn yn effeithio yn economaidd ac yn ddiwylliannol ar bawb yng Nghymru"

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â: Jamie Bevan 07866 560465

## Wythnos Cymorth Cristnogol 2011

Faint byddwch chi'n ei dalu am gwpaned o goffi yn eich caffi lleol? £1? £1.50? £2? Ydy, mae coffi yn fusnes proffidiol iawn, gwerth dros £1biliwn yn y DU yn unig mae'n debyg.

Byddech chi'n meddwl, felly, fod ennill bywoliaeth drwy ffermio ffa coffi yn fater digon rhwydd. Ond dim o'r fath beth! Mae tua 25 miliwn o ffermwyr bach ar draws y byd yn dibynnu ar dyfu coffi am eu bywoliaeth, ond mae'r mwyafrif yn brwydro mewn tlodi, gan weithio oriau hir am ychydig iawn o arian. Dyna'r gwir am Nicaragua lle mae 80% o'r boblogaeth yn byw ar lai na £1.50 y dydd.

Mae ardal fynyddig Jinotega, a adnabyddir fel 'prifddinas coffi' Nicaragua, yn llawn o gymunedau o ffermwyr bach coffi yn ceisio cynnal eu teuluoedd. Mae'r system Masnach Deg ynghyd â'r diddordeb cynyddol mewn bwydydd organig, ecogyfeillgar wedi cynnig rhaff achub i rai a gwella eu bywydau. Ond mae Wythnos Cymorth Cristnogol eleni am roi sylw i waith mudiad o'r enw 'Soppexcca', partner Cymorth Cristnogol, sydd wedi ymrwymo i helpu ffermwyr coffi tlawd Jinotega i drechu tlodi.

Ers ei sefydlu ddeng mlynedd yn ôl mae Soppexcca wedi bod yn annog ffermwyr i ddod at ei gilydd a sefydlu cwmnïau cydweithredol. Trwy wneud hynny maent yn cael help ariannol ac arbenigol i wella ansawdd eu coffi, cynyddu eu cynnyrch a'i farchnata'n well.

Bellach mae Soppexcca yn gasgliad o 18 o gwmnïau cydweithredol sy'n cynrychioli 700 o ffermwyr bach coffi. Drwy gydweithio mae'r ffermwyr yn gallu sicrhau

## Cymdeithas Carnhuanawc





Stori ar dudalen 8

Cymdeithas Carnhuanawc wrth Cofeb Catrin Glyndŵr

Cymdeithas Carnhuanawc ar ben Bryn y Briallu.

pris teg am eu coffi ac maent yn derbyn cyfran o'r elw. Defnyddir yr incwm ychwanegol i ehangu ffermydd a chael offer prosesu syml, ond mae hefyd yn cael ei fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol fel ysgolion, canolfannau iechyd, casglu sbwriel a phlannu coed gan wella bywyd y gymuned gyfan.

Gydag incwm wedi dyblu yn y ddwy flynedd ddiwethaf mae Soppexcca wedi llwyddo i sicrhau benthyciad o $500,000 ar gyfer prynu 'ffatri brosesu sych'. O hyn allan bydd y ffermwyr yn gallu prosesu ac allforio eu coffi, gan dorri allan y rhyngfasnachwr. Drwy hynny gwelant gynnydd yn eu helw fydd yn gwella bywoliaeth y teuluoedd unigol a dod a mwy o welliannau i'r gymuned.

## Clwb Gwawr Caerdydd

Yng nghinio Blynyddol Llywydd Merched Y Wawr yn Aberaeron ym mis Mawrth cyhoeddwyd mai Clwb Gwawr Caerdydd oedd wedi ennill y Darian a'r Dystysgrif am y cynnydd mwyaf mewn aelodaeth eleni.

Mae'r clwb wedi mynd o nerth i nerth yn ystod y tair blynedd diwethaf. Bob mis mae'r criw yn cyfarfod ar gyfer amryw o weithgareddau. Cafwyd cinio Gŵyl Dewi llwyddiannus iawn ym mwyty Mimosa ar ddechrau mis Mawrth ac ym mis Ebrill cafwyd noson wych arall yng Nghlwb Bowls Penhill, cartref Clwb Rygbi Cymry Caerdydd, lle mae Clwb Gwawr Caerdydd yn cyfarfod. Roedd dros 20 aelod yno ar gyfer noson o gyfnewid eitemau, yn amrywio o ddillad i emwaith, o esgidiau i fagiau. Aeth yr hyn oedd yn weddill i elusen Tŷ Hafan a chasglwyd esgidiau ar gyfer ymgyrch Merched y Wawr ac Achub y Plant, Sodle'n Siarad.

Cynhelir cyfarfod nesaf y clwb ar 6ed Mai pan fyddwn ni'n dysgu mwy am wneud sushi. Am fwy o fanylion ewch i dudalen Facebook y clwb neu anfonwch e-bost i: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com



Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr, Mererid Jones, yn cytlwyno Tarian a Thystysgrif i Catrin Champion aelod o Glwb Gwawr Caerdydd


## Y Dinesair

Rhif 113

Croesair gan Rhian Williams

Atebion:
22 Heol Cae Rhys
Rhiwbeina
CF14 6AN

i gyrraedd erbyn 20 Mai 2011



**Ar Draws**

1. Mae tro y salm yn troi ers amser. (2, 2, 4)
6. Gweld eisiau cyfuno'r lle o'r ci. (4)
8. Yli Ted! Mae o heb gartref. (6)
9. 'O nifer dy braidd gad im fod
'Dwy'n ___ na chwennych dim mwy.' (CW. Cyf)
10. Safleoedd arddangos a fu yn llawn annibendod. (9)
13. Cant ar yr ail yn rhan fwyaf o'r Sul yn sŵn clychau. (4)
14. Y sir sydd heb ddechra diota. (9)
15. Cuchia felly a fe wnei ffrindiau. (9)
19&20. 'Yn d'oriau ___, fy malchder erot,
'Yn d'oriau ___, fy ngweddi drosot' (DJ) (6 + 4)
21. Gweddi dol yn dod i'w therfyn.

**I Lawr**

2. Y pwdin gorau ym Mhentre Isa'. (4)
3. Lle i'r Aelod Cynulliad fod allan o'i siaced.
4. Defnyddio trafnidiaeth cyhoeddus i'r gofod ar gân. (2, 1, 3, 1'1, 5)
5. 'Cydwybod euog oed
Yn rhuo dan fy mron,
___ ___ ___ floedd
Tra ar y ddaear hon'. (WJ) (2, 5'1, 5)
6. 'Iesu yw'r Iôr! __ sy'n mynegi
Haul, lloer a sêr datganant mai Iesu yw'r Iôr.' (cyf. HW) (8)
7. A yw'r llew, Aslan, yn rhyo yn y lle hwn? (8)
11. Os y gefyn sydd wedi torri mae'n perthyn i heddiw. (2, 6)
12. Rhoi arian i lawr ar label Dan druan. (8)
16. Tir trist i'r glust. (4)
17. 'Iraint fy mhen ag olew, fy ___ sydd lawn.' (Salmau) (4)

**ATEBION RHIF 112**

**Ar Draws - 1. Bydysawd; 6. Cist; 8. Stranc; 9. Ni syfl; 10. Dy lân ysbryd; 11. Cardod; 14. Gogwydd; 16. Sugna f'enaid; 20. Graean; 21. Cywain; 22. Alaw; 23. Gelynion.**

**I Lawr - 2. Yntod; 3. Ymaflyd; 4. Amcan; 5. Dinesig; 6. Cysyr; 7. Safadwy; 12. Amserol; 13. Draenog; 15. Gwanwyn; 17. Gwelw; 18. Encil; 19. Dringo**

Ennillydd - Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd


BAY Resourcing

Asiantaeth Cyflenwi Athrawon



Os ydych yn Athro Cynradd neu Uwchradd, Cynorthwydd Dysgu neu Ysgrifennydd Ysgol gallwn gynnig:

**Gwaith Rheolaidd**
•
**Amserlenni a dyddiadur ar-lein**
•
**Cyfraddau dyddiol cystadleuol**
•
**Lwfans Teithio a Chinio**

Gwe: www.bayresourcing.com Ebost: info@bayresourcing.com
Ffôn: 02920 494560
Cyfeiriad: 127 Bute St, Bae Caerdydd, CF10 5LE

# Ysgol Glantaf

**Flash, Bang, Wallop**

Ar 18fed Mawrth aeth 68 o ddisgyblion i'r Amgueddfa Genedlaethol i weld sioe o'r enw Flash, Bang Wallop. Ar y dechrau eglurodd y ddau wyddonydd mai pwrpas y sioe oedd dangos bod cemeg yn gallu bod yn hwyl. Dysgon ni lawer am gemeg a pha fath o bethau sy'n digwydd os ydych yn ychwanegu un cemegyn at gemegyn arall.

Roedd Fflash, Bang Whollop yn enw addas ar gyfer y sioe gyda'r ddau wyddonydd yn llwyddo i greu gwahanol fathau o adweithiau cemegol. Bu un ohonynt yn llosgi rhyw fath o swigod gan eu taflu i mewn i'r gynulleidfa! Roedd pawb yn synnu at y ffordd roedd e'n gallu llosgi'r swigod yn ei ddwylo heb losgi ei hun. Wedyn taflodd y ddau lond llaw o "glow sticks" i'r gynulleidfa, ynghyd â pha gemegion bynnag oedd yn y ffyn hyn gan greu un enfawr. Ar ôl tua dwy awr o hwyl addysgol dychwelon ni i'r ysgol, wedi profi cemeg mewn ffordd hollol newydd! Diolch yn fawr i'r adran!

*Ceri Chick Bl.9*

**Cystadleuaeth Heddwch Caerdydd a'r Fro**



Thema cystadleuaeth heddwch Caerdydd a'r Fro eleni oedd 'Peidiwch â'm Barnu-Derbyniwch fi'. Roeddwn yn hoffi'r thema yma gan fod amrywiaeth o bethau i sôn amdanynt. Soniais i am berson anabl yn siarad am ei deimladau. Y diwrnod cefais wybod fy mod i wedi ennill roeddwn yn teimlo'n hapus ac yn falch iawn! Pan glywais y byddai seremoni wobrwyo roeddwn yn llawn cyffro. Yn ystod y Seremoni cafodd nifer o blant o flynyddoedd 2-11 eu gwobrwyo. Roedd gwaith y plant yn cael ei arddangos o gwmpas yr ystafell, fel gwaith celf, barddoniaeth, storïau, ffilmiau a llawer mwy. Enillais y gystadleuaeth Ysgrifennu Creadigol Cymraeg, daeth Math Williams yn ail a Rebeca Hayes yn drydydd. Hefyd daeth Hannah Ward yn 1af a Catrin Thomas yn drydydd yn y gystadleuaeth Ysgrifennu Creadigol Saesneg. Cawsom ein gwobrau ynghyd â thystysgrifau a llun gyda Maer Caerdydd!

*Catrin Evans Bl 9*

# Cymdeithas Carnhuanawc

**Taith i Lundain, 9fed Gorffennaf**

Roedd y tywydd yn garedig a chawsom ddiwrnod diddorol o dan arweiniad Keith Bush a oedd wedi gwneud ei waith cartref yn drwyadl fel arfer. Yn gyntaf ymwelwyd â llecyn tawel yn Salters Hall Court i weld cofeb Catrin Glyndŵr. Ymlaen â ni wedyn i Fryn y Briallu, Capel yr Undodiaid yn Newington Green a beddau Henry Richard a Richard Price.

Achlysur nesaf y Gymdeithas fydd Helfa Drysor Tafwyl o amgylch Penarth lle bydd Keith yn ein harwain eto, y tro hwn drwy gyfrwng cliwiau. Os ydych am ymuno â ni, dewch i orsaf Penarth am 6.30 p.m. nos Wener 17eg Mehefin.

# Merched y Wawr Caerdydd

Treulio Gŵyl Ddewi'n bwyta wnaeth Merched y Wawr Caerdydd. Erbyn mis Ebrill roeddem yn ôl yn ein cartref arferol, yr Eglwys Fethodistaidd, Heol Cyncoed. Yno atom daeth y cyn Brif Weinidog Mr Rhodri Morgan a chawsom amser addysgol a diddorol yn ei gwmni. Eglurodd i ni ei fod yn ddisgynnydd i un o "Fois y Becca". Rai blynyddoedd yn ôl o ran cywilydd nid arddelai'r teulu'r cysylltiad ond fel mae hanes Cymru'n newid ers sefydlu'r senedd daeth ein hunanhyder fel cenedl yn fwy amlwg a hynny a amlygwyd yn y bleidlais ddiweddaraf. Beth bynnag yw ein problemau diweddaraf.

# Ysgol Bro Morgannwg

**Pencampwyr Cwpan Cymru**

Pleser o'r mwyaf wrth ddathlu dengmlwyddiant yr ysgol oedd bod yn dyst i fuddugoliaeth anhygoel y tîm rygbi cyntaf yn rownd derfynol Cwpan Undeb Rygbi'r Ysgolion yn Stadiwm y Mileniwm ar 6ed Ebrill. Mewn gêm fythgofiadwy, chwalodd y bechgyn y tîm o Ysgol Llanisien o 31 - 10. Roedd yn enghraifft wych o waith tîm ar ei orau a llongyfarchiadau gwresog i'r bechgyn i gyd a'r tîm hyfforddi ymroddedig.



**Llwyddiant yn yr Urdd**

Bydd llu o ddisgyblion yn cynrychioli'r ysgol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn dilyn y llwyddiant ysgubol a gafwyd yn yr Eisteddfod Sir yn. Pob lwc i bawb a fydd yn cystadlu yn Abertawe dros y Sulgwyn.

**Clwb Darllen Chwaraeon**

Mae criw o fechgyn Bl. 8 yn cwrdd yn wythnosol mewn clwb darllen cylchgronau chwaraeon arbennig iawn! Maent wrth eu bodd yn darllen cylchgronau sy'n amrywio o Rugby World, Match, Kick i Dr Who, Beano a Nintendo. Dyma un o'r ymgyrchoedd sydd ar waith yn yr ysgol i hybu darllen ymhlith ein disgyblion. Diolch i Mr Paul Mason am arwain y clwb darllen chwaraeon yma.



**Ennill Ysgoloriaeth**

Llongyfarchiadau calonnog i ddwy o ddisgyblion bl. 13 sef Catrin Williams a Kristie Higgins sydd wedi llwyddo i ennill ysgoloriaeth i Brifysgol Aberystwyth. Bydd Kristie yn astudio Hanes a Catrin Cymraeg ac Almaeneg.

# Ysgol Pen-y-Pil

Rydym bellach wedi ymsefydlu yn ein cartref newydd yn Heol Glan-y-Môr, Tredelerch, yng ngorllewin y ddinas ers symud o Ysgol Maes-y-Dderwen (Llaneirwg) ddechrau mis Ionawr lle buom am y tair blynedd a hanner diwethaf. Mae gennym 27 o blant ar gofrestr yr ysgol o oed Derbyn hyd at Flwyddyn 3. Ym mis Ionawr cafodd rhieni Pen-y-Pil gyfle i weld yr adeilad ar ei newydd wedd a chrwydro o gwmpas y safle.

Daeth Mr Adam Coalman i siarad â'r plant am Iesu'n tawelu'r storm ar y môr. Bu'r plant yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mro Eirwg gan berfformio ar lwyfan yr Eisteddfod yn eu gwisgoedd Cymreig.

Cawsom ymweliad gan gwmni Zoo Lab lle cafodd y plant gyfle i drafod amrywiaeth o anifeiliaid fel llyffantod, nadroedd, tarantwlaod a llygod mawr. Roedd y disgyblion wrth eu bodd ac, yn amlwg ddigon, wedi elwa o'r profiad.

Yn ystod mis Mawrth, daeth Mr Andrew McCarthy a'r diffoddwyr tân i Ben-y-Pil i siarad â'r plant am beryglon chwarae â matsis. Cafodd y plant gyfle i wisgo gwisg diffoddwr tân, eistedd yn yr injan yn ogystal â defnyddio'r bibell ddŵr. Diolch yn fawr.

Treuliodd Sophie Rice o Ysgol Glan Taf wythnos fel rhan o'i phrofiad yn y gweithle yn y Cyfnod Sylfaen.

Cynrychiolodd Jadee Raffour a Rosiek Rice yr ysgol mewn cystadlaethau llefaru ar lwyfan Eisteddfod Gylch yr Urdd ym Mhlas Mawr. Da iawn chi!:

# Ysgol Bro Morgannwg

**Astudio yn Rhydychen**

Rydym fel ysgol wrth ein bodd yn dathlu'r newyddion bod dau ddisgybl o fl. 13 wedi llwyddo i ennill lle ym Mhrifysgol Rhydychen. Llongyfarchiadau gwresog i Eleri Roberts a Gareth Davies. Bydd Eleri yn astudio Athroniaeth a Diwinyddiaeth yng ngholeg enwog yr Iesu, tra bod Gareth wedi llwyddo i gael lle yng ngholeg Wadham. Gwnaeth 1500 o fyfyrwyr gais i astudio meddygaeth yn Rhydychen ac o'r rhain dim ond 150 sydd yn cael eu derbyn. Tipyn o gamp! Dymunwn yn dda i'r ddau gyda'u hastudiaethau yn y dyfodol.

# Ysgol Pwll Coch

**Llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir**

Llongyfarchiadau mawr i Gruffydd Edwards a ddaeth yn gyntaf yn y gystadleuaeth llefaru unigol a'r grŵp telynau, sef Amy Lloyd Evans, Tomos Boyles, Hattie Taylor, Rhys Newton, Isobella Kennedy, Cate Lloyd Hughes, Greta Evans a Heledd Newton, a fu'n fuddugol yn yr Eisteddfod Sir. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe!

**Roald Dahl**

Bu plant bl 5 yn ddigon ffodus i gydweithio ar brosiect Revolting Rhymes Roald Dahl yng Nghanolfan y Mileniwm. Daeth y bardd Rhys Trimble i lunio cerddi gyda'r plant.




Wedyn bu aelodau o Goleg Cerdd a Drama Caerdydd yn dangos iddynt sut i greu effeithiau sain i gyd-fynd â'r cerddi. Ar ddiwrnod y llyfr cawsant gyfle i berfformio eu Revolting Rhymes yng nghyntedd Canolfan y Mileniwm. Roeddent yn wych. Da iawn Blwyddyn Pump.

**Côr**

Cafodd plant bl 4, 5 a 6 y côr brofiad gwefreiddiol ar Ddydd Gŵyl Dewi wrth gymryd rhan yng Nghantata Carl Orff 'Carmina Burana' yn Neuadd Dewi Sant gyda Chôr Cenedlaethol y BBC a chorau ieuenctid Cymru o dan arweiniad yr arweinydd byd-enwog Andrew Litton o Texas. Canmoliaeth a chlod uchel a gafodd y plant gan aelodau'r gynulleidfa a derbyniodd yr ysgol nifer o gardiau a llythyron yn eu llongyfarch. Profiad bythgofiadwy i'r plant, eu rhieni, Mrs Howells a Miss Griffiths.

**Diwrnod y Llyfr**

Cawson ni ddiwrnod penigamp ar Ddiwrnod y Llyfr eleni. Gwisgodd y plant i gyd (a nifer fawr o'r staff dewr!) fel eu hoff gymeriad llyfr. Daeth llu o ymwelwyr a ffrindiau i'r ysgol i ddarllen eu hoff storïau. Cawsom ymweliadau gan awduron llyfrau plant hefyd. Roedd Meilyr Sion wrth ei fodd yn diddanu plant Bl 4 gyda'i lyfr ' Bwyd i'r Bwlis' a chlywson nhw am yr hyn wnaeth ei ysbrydoli i ysgrifennu'r gyfres arbennig.

# Ysgol y Berllan Deg

**Ymweliadau**

Bu côr yr ysgol yn canu yn Nhŷ Enfys ac yng Nghartref Henoed Sunrise. Aeth Bl 2 ar drip i Gapel Minny Street i edrych ar adeiladau. Ymwelodd Bl 5 â'r Synagog a chymerodd ran hefyd ym mhrosiect START gydag Amgueddfa Cymru Caerdydd. Yn ogystal, ymwelodd Bl 3 ag Amgueddfa Sain Ffagan i ddysgu am y Celtiaid ac aeth Bl 4 i weld Plasty Edward Pritchard, sef Llancaiach Fawr.

**Arolwg Traffig**

Bu pedwar o blant Bl 6 yn cynorthwyo'r heddlu i atal pobl rhag gyrru'n gyflym ar y ffordd gerllaw'r ysgol a buom yn cydweithio ag Ysgol Meadowlane ar y cynllun.

**Ffrindiau**

Diolch i'r Ffrindiau am drefnu helfa wyau Pasg i holl blant yr ysgol.

**Cyfarchion**

Pob dymuniad da i Miss Amy Jenkins ar achlysur ei phriodas yn ystod gwyliau'r Pasg.

# Ysgol Mynydd Bychan

Yn ôl ein harfer, cawsom lawer o hwyl yn dathlu ein Cymreictod yn yr 'Ŵyl Gymreig' ar ddechrau mis Mawrth. Dechreuodd yr ŵyl ddydd Mawrth 1af Mawrth gydag Eisteddfod a barodd drwy'r dydd! Llongyfarchiadau calonnog i Tanisha Daley-Byard ar ennill y gadair eleni am ei stori greadigol. Cafodd yr ysgol gyfan gyfle i berfformio hwiangerddi a cherddi Cymraeg ar y dydd Mercher a braf oedd clywed pob dosbarth yn cyfrannu at wledd o Gymreictod ar lafar ac ar gân.

Bu sawl dosbarth yn coginio yn ystod yr wythnos a bu arogleuon cawl, pice ar y maen a 'Welsh Rarebit' yn llenwi'r ffroenau gydol yr wythnos!!

Daeth y sylwebydd pêl-droed Ian Gwyn Hughes i siarad am ei waith gyda disgyblion blynyddoedd 5 a 6 ar y dydd Mercher. Roedd y plant wrth eu bodd yn ei holi am y chwaraewyr yr oedd wedi cyfarfod â Hwy ynghyd a'r gemau yr oedd wedi sylwebu arnynt. Ar y dydd Iau, cafodd plant yr ysgol gyfle i wisgo fel cymeriad allan o chwedl eu dosbarth. Roedd ymdrechion y plant yn wledd i'r llygad!

I ddathlu 'Wythnos Mathemateg' bu'r adran iau yng nghanolfan Techniquest er mwyn gweld y sioe 'Mae Mathemateg ym Mhobman' ac yna crwydro'r ganolfan a

cheisio datrys yr 'Her Mathemategol'.

I gefnogi elusen 'Trwynau Coch', penderfynodd rhai o blant blwyddyn 3 godi arian i'r achos drwy werthu cacennau, bisgedi, cardiau a breichledau. Llwyddasant i godi £38 - Llongyfarchiadau iddynt!

# Ysgol Pencae

**Ymweliad ysgolion o'r Gogledd**
Daeth disgyblion ysgolion Betws Gwerfil Goch, Gwyddelwern, Llandrillo a Chynwyd atom i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi eleni. Braf oedd gweld y disgyblion yn cymdeithasu ac yn trafod eu hysgolion a'u cefndiroedd cyferbyniol. Roedd canu ardderchog yn neuadd yr ysgol tra'n canu'r gân 'Fi di fo a Fi yw e'- cân sy'n amlygu'r gwahaniaeth rhwng tafodiaith y De a'r Gogledd!

**Maes y Fron**
Aeth disgyblion Blwyddyn 4 i ganolfan Maes y Fron yn Abercraf ar gwrs preswyl cyn gwyliau'r Pasg. Dyma brofiad gwerth chweil i'r disgyblion ddatblygu eu sgiliau cydweithio fel aelodau o dîm, creu trapiau trychfilod ynghyd â dringo craig a cherdded ceunentydd yng Nghraig y Nos.

**Urdd Gobaith Cymru**
Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran mewn amrywiaeth o gystadlaethau yn ddiweddar. Pob dymuniad da i Nansi Rhys Adams (Cerdd Dant), Elis Midha (Clarinet) a Heledd Powell (Celf a Chrefft) yn Eisteddfod yr Urdd yn Abertawe.

**Gŵyl Heddwch Caerdydd a'r Fro**
Llongyfarchiadau i Erin Williams, Ffion Cooper, Adam Field ac Ioan-Wynne Bowen-Picket am dderbyn gwobrau yn y gystadleuaeth hon. Aethon nhw i Ganolfan Ddinesig y Barri er mwyn derbyn gwobr am greu posteri ar y thema 'Ffrindiau'.

**Diogelwch y Ffordd**
Mae tîm Diogelwch y Ffordd wedi llwyddo i gyrraedd rownd derfynol y cwis hwn. Pob dymuniad da iddyn nhw ym mis Mai!

**Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Pencae**
Cynhaliwyd twmpath yn ddiweddar fel rhan o weithgarwch y Gymdeithas. Braf oedd gweld y plant a'u rhieni'n dawnsio i gerddoriaeth draddodiadol Gymreig gan Dai James a'r band ar ôl bwyta bwyd blasus. Codwyd cyfanswm anrhydeddus i goffrau'r Gymdeithas. Diolch i'r tîm am y trefniadau ac i bawb a gefnogodd.

# Ysgol Coed-y-Gof

Llongyfarchiadau mawr i'n tîm pêl-droed am ennill twrnameint Ysgol y Gadeirlan am yr ail flwyddyn yn olynol. Mae hefyd wedi cyrraedd rownd derfynol cystadleuaeth yr Urdd eleni a bydd yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro ym mis Mai. Pob lwc iddo yn Aberystwyth.

Buom yn dathlu Wythnos Genedlaethol Gwyddoniaeth a Pheirianneg eleni mewn nifer o ffyrdd. Bu'r adran Iau yn cynnal ymchwiliadau gwyddonol a chafwyd arddangosfa o'u gwaith yn y cyntedd. Roedd gwobrau gwyddonol gwych i'r enillwyr. Daeth myfyrwyr o UWIC atom er mwyn cynnal Sialens Fawr Wyddoniaeth i blant blynyddoedd 1 a 2. Cafwyd hwyl a sbri wrth ymchwilio a holi a rhoddwyd tystysgrifau i bawb a gymerodd ran.

Bu Blwyddyn 6 ynghlwm wrth brosiect celf cymunedol i wella golwg y siopau yn ein hardal leol. Aethant ati mewn gweithdy i greu gwaith argraffu arbennig a gafodd ei drosglwyddo i flaen un o'r siopau. Rhaid dweud bod yr ardal leol wedi elwa'n fawr o'u gwaith caled a'r plant wedi mwynhau cyfrannu mewn ffordd mor bositif.

Llongyfarchiadau mawr i Celyn Cotterall am gynrychioli Prydain Fawr yn ddiweddar mewn cystadleuaeth sglefrio iâ yn Latfia. Profiad bythgofiadwy iddi. Clod mawr hefyd i Lukah Huxtable am ennill gwobr dinasyddiaeth gan Ganolfan Gymunedol Plas Dŵr. Cafodd fynd i Neuadd y Ddinas er mwyn cwrdd â'r Faeres.

Bu Blynyddoedd 3 a 4 yn ymweld â Llundain yn ddiweddar er mwyn cymryd rhan mewn gweithdy 'A Midsummer Night's Dream' yn Theatr y Glôb. Y thema y tymor hwn yw'r Tuduriaid, ac felly roedd yr ymweliad yn gyfle gwych i gael profiadau byw o adloniant yr oes a dysgu mwy am y bardd enwog William Shakespeare.

# Ysgol Melin Gruffydd

**Eisteddfod Sir**
Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir: Parti Deulais –2ail, Dafydd Chapman (piano)-1af, Cerys Davage (telyn) -3ydd, Dawnsio gwerin bl 3 a 4—1af, Erin Jones (llefaru) - 1af, Efa Prydderch (llefaru) —3ydd. Pob lwc i Dafydd, Erin a'r tîm Dawnsio Gwerin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe.

**Chwaraeon**
Llongyfarchiadau i dîm rygbi'r ysgol ar eu llwyddiant yng nghystadleuaeth yr Urdd. Chwaraeodd y tîm 6 gêm, ennill 5 ohonynt a cholli o drwch blewyn yn y rownd derfynol. Bydd y tîm yn cynrychioli Caerdydd a'r Fro yn y rownd genedlaethol yn Llanelli.

**Tair wythnos o feicio**
Yn ddiweddar bu disgyblion, rhieni a staff Melin Gruffydd yn cystadlu yn y 'Big Pedal,' ras feicio o amgylch Prydain. Dechreuodd y ras ar 7fed Mawrth ac am y tair wythnos ganlynol buwyd yn annog y disgyblion a'u rhieni (a rhai o'r staff!) i feicio i'r ysgol. Trefnwyd amrywiaeth o weithgareddau i ennyn brwdfrydedd y plant a bu'r ymateb yn wych. Ar sawl diwrnod daeth dros 200 o feiciau i'r ysgol ac ar un diwrnod gwelwyd 267 o feiciau! Allan o dros 1000 o ysgolion ym Mhrydain daeth Melin Gruffydd yn 40fed! Melin Gruffydd oedd yr ysgol orau o blith yr ysgolion a fu'n cystadlu yng Nghaerdydd felly trefnodd Mr Tim Anfield o 'Bike It' i ni gael gwylio sioe BMX gan gwmni 'Savage Skills' fel gwobr am yr ymdrech wych.

**Reading Power**
Llongyfarchiadau i Ellie Williams Bl 5 a enillodd gystadleuaeth ddarllen o fath gwahanol yn ddiweddar. Roedd yn rhaid iddi ddarganfod gwallau atalnodi ar arwyddion yn y gymuned. Cafodd y wobr gyntaf ac ennill "Kindle."

# Cymdeithas Cymru-Ariannin

**Cyfarfod Blynyddol Cangen y De**

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cangen y De o Gymdeithas Cymru-Ariannin yn festri Salem Treganna nos Iau 14eg Ebrill. Cafwyd sgwrs ddifyr gan Watlter Ariel Brooks gynt o Comodoro Rivadavia ym Mhatagonia am bapur newydd y Wladfa, sef 'y Dafod' ac yna aethpwyd ati i ethol swyddogion a phwyllgor ar gyfer 2011-12.

Etholwyd Walter Ariel Brooks yn gadeirydd, Sandra de Pol yn Is-gadeirydd, Elin Rhys yn ysgrifenyddes a Bob Pugh yn Drysorydd.

# Newyddion o'r Eglwysi

## MINNY STREET

### Cydymdeimlo
Cofiwn yn annwyl am Miss Gwyneth Morgan (Penylan); a hithau wedi dathlu ei chanfed pen-blwydd ym mis Medi, hi oedd ein haelod hynaf. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r teulu ynghyd â'i chyfeillion.

### Aelodau Newydd
Hyfrydwch oedd derbyn tair o ieuenctid yr eglwys, sef Manon Browning, Enlli Parri a Sioned Press, yn gyflawn aelodau mewn oedfa arbennig ddechrau mis Ebrill.

### Genedigaeth
Croeso cynnes a phob dymuniad da i Megan Kenny, merch i Lisa a Sacha yn Llundain ac wyres gyntaf i Moyra a Peter Greaney.

### Bedydd
Hyfrydwch fu tystio i fedydd Jac William Morgan, mab Carys a Simon (Y Mynydd Bychan) a brawd Catrin yn yr oedfa foreol Sul y Blodau.

### Ein Taith Grawys
Dros Dymor y Grawys, cawsom fendith o fynd ar daith bersonol – Taith y Grawys. O Sul i Sul, gyda chymorth model o gyffiniau Jerwsalem a adeiladwyd gan ein Gweinidog, cawsom gyfle i brofi gwahanol gamau'r daith. O wythnos i wythnos, roedd golygfa gefndirol a thirlun newydd trawiadol yn ein disgwyl a chyfle i gynnau cannwyll, myfyrio a gweddïo. Llun ar dudalen 4.

Dyma'r camau:
Cychwyn gan sylweddoli mai taith yw'r Grawys a'i bod yn bwysig bod ystyr a phwrpas i'n taith, sef cyrraedd ei phen draw.
Llwybr caled, cras drwy dir anial a gynrychiolai ail gam anodd ein taith. Fe'n hatgoffwyd bod cyfle yng nghanol diffeithiwch – cyfle i ganfod Duw.
Yna daethom at groesffordd - cyfle i ddewis ffordd a sylweddoli'n syml mai Crist yw'r groesffordd ac mai efe sy'n arwain i'r bywyd.
Diolch byth bod ambell werddon ac ynddi ffynnon yng nghanol anialdir ein taith! Hanfod pob gwerddon yw gorffwys ac adnewyddiad. Yn yr un modd, mae Duw yn gofalu amdanom ac yn ein hadnewyddu.
Golygfa i'n llonni a'n croesawai ar yr ail Sul cyn y Pasg – llwybr unionsyth, hawdd ei cherdded. Er i'r daith fod yn hir ac anodd, pwyll ac amynedd, yn hytrach na brys, piau hi. Ar Sul y Blodau dyma gyrraedd Jerwsalem, pen y daith, a'r wythnos sanctaidd yn estyn o'n blaenau gyda'i her i ni weld o'r newydd ryfeddod a dyfnder cariad Duw yng Nghrist. Cyfle y tro yma i daenu blodau ar y ffordd.

I ddarllen myfyrdodau'r Gweinidog, ei bytiau Munud i Feddwl a newyddion am holl weithgarwch amrywiol Minny Street, ewch i www.minnystreet.org.

## TABERNACL

### Genedigaeth
Ganwyd i Delyth McGreevy a'i chymar Paul eu plentyn cyntaf sef Ana Heulwen, wyres i Calan a Malcolm. Llongyfarchiadau cynnes iawn.

### Priodas Aur
Llongyfarchwn Alan ac Alwen Kemp ar achlysur dathlu pen-blwydd Priodas Aur ar Sul cyntaf Ebrill eleni.

### Creu Swydd Newydd
Braf yw cofnodi i'r Cwrdd Eglwys ganol mis Mawrth gadarnhau eu cefnogaeth i geisio datblygu gwaith yr ifanc yn ein plith, drwy gefnogi'r cynllun i greu swydd blwyddyn ar y cyd â Chymanfa Dwyrain Morgannwg.

### Cymdeithas Nos Fawrth
Cynhaliwyd Cyfarfod blynyddol y Gymdeithas yn ddiweddar, gan fwrw golwg dros waith y tymor. Diolchwyd i Illtyd Lloyd y cadeirydd, i Rhodri ab Owen yr ysgrifennydd ac i Jean Evans y trysorydd. Bydd cyfarfodydd y sesiwn nesaf yn nwylo Marc John fel cadeirydd a Bryn Evans fel ysgrifennydd.

### Cinio Codi Arian i Lesotho
Diolch i Eluned ac Owen Rook am eu croeso i swper ysgafn ar eu haelwyd i gefnogi'r Apêl am nawdd i'r prosiect yn Lesotho. Roedd hi'n hyfryd gweld nifer o'u ffrindiau yno yn awyddus i ddysgu mwy am y gwaith.

### Organathon
Cafwyd llawer o hwyl ddydd Sadwrn 12fed Mawrth pan oedd nifer o organyddion yr Eglwys wedi cydweithio i sicrhau deuddeg awr ddi-dor o ganu'r organ. Trefnwyd cynyddydd sain i'r cyntedd, er mwyn darlledu'r gerddoriaeth i'r Aes. Llwyddodd yr ymdrech hon i godi dros ddwy fil o bunnau.

### Cyngerdd y Côr
Daeth cynulleidfa deilwng i wrando ar Gôr y Tabernacl yn canu 'Gloria' o waith Vivaldi nos Fawrth 12fed Ebrill, dan arweiniad Euros Rhys Evans. Organydd y noson oedd Rob Nicholls a'r unawdwyr oedd Rhian Williams ac Angharad Morgan. Yn rhan gynta'r noson, canodd y Côr emynau, yn cynnwys dwy gan Morfudd Llwyn Owen, a chawsom ddatganiad gwych gan Huw Thomas ar yr organ. Diolch i Euros am ei frwdfrydedd a'i ysbrydoliaeth.

## SALEM, TREGANNA

### Bedyddiadau
Bedyddiwyd Lois Gwynn, merch Lowri a John, Arthur, mab Haf a Mike ac Osian, mab Martyn a Lowri yn ystod mis Ebrill. Dymunwn yn dda iddynt a'u teuluoedd i'r dyfodol.

### Adran yr Urdd
Llongyfarchiadau i Adran yr Urdd Salem ar gystadlu mor hyfryd yn yr Eisteddfod Sir. Bydd grŵp llefaru a chôr yr adran yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Abertawe ddechrau mis Mehefin. Pob lwc!
Cynhelir amrywiaeth o weithgareddau yn yr adran bob wythnos, o wersi Sbaeneg i sinema, i addurno cacennau i gemau. Os hoffech gynnig sesiwn hanner awr o weithgaredd y byddai'r plant yn ei fwynhau, plis cysylltwch!

### Grŵp Canu
Mae'r grŵp canu wedi perfformio mewn oedfa yn ystod y mis, o dan arweinyddiaeth Geraint Cynan.

### Cis
Cafwyd noson fendigedig o flasu gwin o dan ofal Haf Hayes a Geraint Cynan yn ystod y mis.

### Cydymdeimlo
Rydym yn cydymdeimlo'n ddwys â Siân Roderick a'i theulu a gollodd ei thad yn ddiweddar. Rydym i gyd yn meddwl amdanoch ar yr amser anodd yma.

### Miri Mawl
Cynhelir Miri Mawl yn yr Eglwys Norw-

yaidd eleni ar 15fed Mai. Bydd yn gyfle i blant a theuluoedd ganu mewn awyrgylch anffurfiol. Byddwn yn cwrdd wedyn yn y Spice Root am ginio, o dal ofal Catrin Leader. Croeso i chi ymuno a ni!

**Criced**

Wrth edrych ymlaen at y tymor newydd, mae llu o gemau wedi'u trefnu. Gobeithio y bydd yr haul yn gwenu er mwyn i ni gael gemau yn llawn cyffro!

## EGLWYS DEWI SANT

**Sul y Blodau**

Yn dilyn gwasanaeth y bore cynhaliwyd Festri'r Pasg ac etholwyd Rhys Jones yn Warden y Ficer a Delyth Davies yn Warden y Bobl am y flwyddyn i ddod.
Yn yr hwyr cafwyd achlysur arbennig pan groesawyd Côr Caerdydd i'r eglwys. Dechreuwyd y gwasanaeth gyda'r Gosber ac yna canodd Côr Caerdydd y Croeshoeliad gan Steiner. Rhwng y cytganau darllenwyd o'r ysgrythur gan Wyn Mears ac ymunodd y gynulleidfa i ganu rhai o'r emynau. Teimlad pawb oedd yno oedd bod y gwasanaeth wedi gosod sail effeithiol iawn i wasanaethau'r Wythnos Fawr.

**Taith**

Yn ystod gwyliau'r Pasg bydd Liz Harewood yn teithio i Lesotho ac yn ymweld ag ysgol yno. Mae Liz yn athrawes yn Ysgol y Wern, Llanisien.

**Cydymdeimlo**

Fel eglwys rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant â'r Parchedig Stephen Adams ac Amy ar farwolaeth Paul Adams, tad Stephen.

## EBENESER

**Cinio Gŵyl Dewi**

Daeth criw o hanner cant at ei gilydd i ddathlu Gŵyl Dewi drwy gael pryd tri chwrs blasus dros ben yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd. Y siaradwr gwadd oedd yr actor a'r cyflwynydd poblogaidd, Frank Lincoln, a fu'n sôn am ei yrfa ac am ambell i dro trwstan a digri dros y blynyddoedd. Does dim dwywaith bod ei yrfa wedi bod yn un lliwgar! Diolch i Brenda Jones am drefnu.

**Cyrddau Pregethu**

Ddydd Sul 13eg Mawrth cynhaliwyd ein Gŵyl Bregethu Hanner Blynyddol lle cawsom gyfle i groesawu atom y Barch. Beti Wyn James, Caerfyrddin. Yn y bore cymerodd ei thestun o hanes y Gweddnewidiad gan ganolbwyntio ar y frawddeg, 'Hwn yw fy Mab' Yr hyn oedd yn bwysig sef marwolaeth ac atgyfodiad Iesu. 'Un peth' oedd y testun yn y nos gan gyfeirio at bedwar peth pwysig - edrych i'r dyfodol, cyrchu at y nod yng Nghrist, peidio â bod yn ddall yn ysbrydol a phwysigrwydd ein perthynas â'r Iesu. Diolch am ei neges fore a nos.

**Stondin Masnach Deg**

Bu criw o'r ieuenctid yn cynnal stondin Masnach Deg yn dilyn oedfaon dau ddydd Sul cyntaf mis Mawrth i ddynodi a chefnogi Pythefnos Masnach Deg. Drwy eu hymdrech lew bu rhaid mynd yn ôl i'r siop yn Nhreganna ar ôl y Sul cyntaf i nôl mwy o gynnyrch ar gyfer yr ail Sul. Codwyd £138.

**Ymweliad â Tsieina**

Bu Melfyn Hopkins yn Tsieina yn ddiweddar gyda chriw o athrawon o Awdurdod Addysg Caerdydd er mwyn cryfhau'r cysylltiadau addysgol rhwng y ddwy wlad. Bu'n daith lwyddiannus a hynod ddiddorol, meddai Melfyn. Bydd hanes y daith yn ymddangos yn 'Y Llusern' ac ar ein gwefan cyn bo hir.

**Y MOB - Tresaith**

Bu'r M.O.B – Clwb Ieuenctid Ebeneser – ar drip i Ganolfan Tresaith dros y Sul 15 – 17 Ebrill. Cafwyd miloedd o hwyl yno yn cymdeithasu a dysgu mwy am y ffydd. Arweinydd y sesiynau oedd Dr Rhodi Glyn, Cei Newydd, a siaradodd yn rhagorol am y Croeshoeliad a'r Atgyfodiad. Diolch i'r arweinyddion Alaw Rowlands, Gwilym Jeffs a Rachel Jones am eu holl waith yn paratoi ac i aelodau hael Ebeneser am gyfrannu bwyd ac arian.

## BETHEL, RHIWBEINA

Cafwyd cyfraniadau bendigedig gan aelodau'r Ysgol Sul mewn oedfa dros y Pasg. Diolch i bawb fu'n eu hyfforddi. A bu pedwar o aelodau hŷn yr Ysgol Sul – Elen, Hannah, Carwyn ac Osian – yn cymryd y rhannau defosiynol mewn 'Oedfa o Fawl' a gynhaliwyd ym Methel gan Ardal Morgannwg o'r Eglwys Fethodistaidd. Delyth Medi fu'n arwain y canu.

Cynhaliwyd yr ail mewn cyfres o fyfyrdodau ar y Grawys gan Gyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd ym Methel, Mawrth 24. Trefnwyd y myfyrdod gan Mrs Carys Whelan a chymerwyd rhan hefyd gan y Parchedig Denzil John.

Llongyfarchiadau i Gwenda a Dennis Francis ar ddod yn fam-gu a thad-cu am y tro cyntaf. Ganed Megan Olivia i Erica a Dewi Francis yn Dallas, Texas.

## EGLWYS Y CRWYS

**Y Grŵp Merched**

Nos Lun 7fed Mawrth cafodd aelodau'r grŵp noson werthfawr iawn yng nghwmni Huw Roberts, y cerddwr a'r pererindotwr o fri. Olrhain hanes ei daith ddiwedaraf rhwng Llanddewi Brefi a Thyddewi a wnaeth Huw gyda'r pwyslais wrth gwrs ar y profiad o droedio llwybrau'r pererinion a fu, yn ogystal â chodi arian at elusen Sefydliad Prydeinig y Galon. Roedd cyfarfod Nos Lun 11eg Ebrill yng ngofal y Parch. Hywel Davies a thywyswyd myfyrdod yr aelodau at arwyddocâd yr wythnos fawr yn y calendar Cristnogol.

**Priodasau**

Ar ddechrau Mis Mawrth priododd Janet Parry Jones ag Oswald Wheatley ac yna ar ddechrau Ebrill priododd Carys Meriel Edwards a Stuart George White. Ein Gweinidog, y Parch. Glyn Tudwal Jones, a fu'n gweinyddu'r gwasanaethau hyn. Yn ystod yr un cyfnod dathlodd Ivor ac Ann Williams eu Priodas Aur. Dymuna'r Eglwys a chyfeillion bob bendith ar yr achlysuron hyn.

**Yr Ysgol Sul**

Fore Dydd Sul 3ydd Ebrill cafodd plant yr Ysgol Sul gyfle i werthu cacenau i aelodau'r gynulleidfa. Bu'r fenter hon yn dra llwyddiannus a bydd y £200 punt o elw a wnaed yn mynd tuag at gartref plant yn Mizoram yn India.
Yr un bore bedyddiwyd Gwilym Robert, mab Lisa a Matthew Harrison, ac ŵyr i Eirlys a'i diweddar ŵr Robin Jones a fu'n amlwg iawn dros y blynyddoedd fel darlledwr ac arweinydd Eisteddfodau a Chyngherddau yn ogystal â bod yn flaenor yn y Crwys.

**Y Gymdeithas Ddrama**

Nos Sul y Blodau cafodd y Gymdeithas ymateb teilwng iawn i'w chynhyrchiad o ddrama'r Pasg "Ar Brawf" gan I.D.E.Thomas. Fel yr awgryma'r teitl rhoi dilysrwydd marwolaeth ac atgyfodiad Crist ar brawf a wna'r ddrama hon a chafodd y gynulleidfa o nifer o eglwysi Cymraeg y Ddinas gyfranogi trwy gynrychioli'r rheithgor.

# Rysáit y Mis



**Salad Perl Las a Gellyg**
Gan Nerys Howell o Ymgynghoriaeth Bwyd Howel

Gellir gweini'r cyfuniad clasurol o gaws glas a gellyg fel dechreufwyd neu ginio ysgafn.

I weini 4. Amser paratoi: 15 munud

4 tafell drwchus o fara ffigys a phupur du (gweler y rysáit)
2 lond llwy fwrdd menyn
1 llond llwy fwrdd siwgr brown
1/2 llond llwy de pupur wedi'i gracio
2 lond llwy fwrdd dail coriander ffres
2 gellygen aeddfed wedi'u sleisio'n gyfan
110g/4 owns berwr a dail salad cymysg
150g/5 owns caws glas e.e perl las, gorau glas, Boksburg

Tostiwch y bara'n ysgafn a thorrwch bob tafell yn ddau o gongl i gongl. Gadewch iddynt oeri. Cynheswch y menyn mewn ffreipan dros wres gweddol. Rhowch y siwgr, y pupur a'r coriander yn y ffreipan a'u coginio am funud. Rhowch y sleisys gellyg cyfan i mewn a'u coginio am ddwy funud ar bob ochr nes eu bod yn euraid. I weini, rhowch y bara ar y platiau, rhowch yr ellygen arnynt, yna sleisys tenau o'r caws glas a phentwr o ddail salad. Arllwyswch y sudd o'r ffreipan dros y salad, taenwch bupur wedi cracio drosto a'i weini ar unwaith.

Mae Ymgynhoriaeth Bwyd Howel yn gwmni sy'n helpu marchnata bwyd a diod o Gymru gan ddatblygu ryseitiau, bwydlenni, ffotograffiaeth bwyd a hyfforddi.
Am ragor o wybodaeth, ewch i www.howelfood.com

# Cor Meibion Taf

Ar ôl cymryd rhan yng Nghyngerdd Mil o Leisiau yn Neuadd Albert y llynedd cawsom wahoddiad i ganu yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd ar 6ed Mawrth 2011 er budd Teenage Cancer Trust. Profiad gwych i'r côr oedd cael canu ar un o brif lwyfannau Cymru am y tro cyntaf o dan arweiniad y maestro Alwyn Humphries ac i gyfeiliant band pres y Cory a rhannu llwyfan gyda'r cantorion proffesiynol, David Kempster ac Elizabeth Donovan. Roedd y ganolfan dan ei sang a'r gynulleidfa'n werthfawrogol o'r darnau amrywiol.

**Cinio Blynyddol**
Cynhaliwyd cinio blynyddol y côr yng Ngwesty'r Park Plaza, Greyfriars Road nos Wener 18fed o Fawrth. Diolchodd ein cadeirydd newydd, Irfon Bennett i John Albert Evans am ei waith fel cadeirydd dros y ddwy flynedd diwethaf. Diolchodd yn deilwng i Robert Nicholls a Lowri Evans am eu gwaith yn ein harwain dros y flwyddyn. Cyflwynodd Rowland Owen faton arwain arbennig i Rob i ddiolch iddo am ei waith yn sefydlu ac yn arwain y côr a fydd yn ddefnyddiol, yn ôl Rob, i gadw'r bois mewn trefn!

**Eisteddfod Genedlaethol**
Mae'r côr yn brysur ar hyn o bryd yn dysgu darnau ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam a'r Fro ym mis Awst. Yn dilyn ein llwyddiant yn y brif



gystadleuaeth gorawl y llynedd, rydym wedi comisiynu darn gan Gareth Glyn gan ddefnyddio geiriau'r gerdd fuddugol yng nghystadleuaeth y Goron yng Nglynebwy. Rydym yn ddiolchgar iawn i Glenys Mair Glyn Roberts, awdur y gerdd, 'Cenaist Gan', am roi caniatâd i ni ddefnyddio'r geiriau.

**Sbaen**
Ym mis Hydref bydd y côr yn mynd ar ei thaith dramor gyntaf i ardal Torrevieja yn Sbaen lle y byddwn yn aros am bum noson gan berfformio mewn dwy gyngerdd. Mae'r côr yn ymarfer bob nos Sul am 7.30 yng Nghapel y Tabernacl, Yr Ais. Croeso i aelodau newydd.

*Os oes diddordeb gennych cysylltwch â Robert Nicholls (Arweinydd) ar 07817540660 neu Irfon Bennet (Cadeirydd) ar 07775655396*

**AR WERTH**

**Ty mawr -**
**addas ar gyfer teulu ifanc yng Ngwaelod-y-Garth.**

**5 lloft,**
**2 yst ymolchi,**
**Lolfa,**
**Ystafell fwyta,**
**Gegin,**
**Swyddfa**
**Garej mawr.**
**Lle am 2 lloft yn y tô.**

**A470 /M4 mewn 3/5 mun. Y ddinas 20 mun. Agos i**

**Ysgol Gymraeg yn y pentre. Bysiau i ysgolion uwchradd lleol.**

**Am fwy o fanylion - www.moginiejames.co.uk**

# Cymdeithas Wyddonol Caerdydd

Profiad hollol wahanol i'r arferol gafodd yr aelodau yn y cyfarfod a gynhaliwyd Nos Lun, Mawrth 21ain, sef, cyflwyniad ar ffurf drama gan Theatr Na Nog. Cyflwyniad un -act, gan un actor (Ioan Hefin, a aned yn Llanbadog Fawr, Sir Fynwy) yn sôn am fywyd a gwaith Alfred Russel Wallace, y gwyddonydd a gysylltir gyda Brynbuga a Chastellnedd. Roedd y cyfan yn drawiadol o effeithiol, gyda'r actor yn derbyn cymorth aelodau eraill o'r cwmni drama. Bodlonwyd aelodau ein cymdeithas yn llwyr. Gallwn gymeradwyo'r cyflwyniad yn wresog iawn i gymdeithasau ac ysgolion. Codwch y ffon at 01639 641 771 neu cysylltwch yn electronig ar drama@theatr-nanog.co.uk

Roedd y testun o ddiddordeb arbennig i ni oherwydd cyfrannodd un o'n haelodau (Dr. R. Elwyn Hughes), yn gyfoethog iawn at ledu'r wybodaeth am Wallace. Trwy hyn sicrhawyd bod Wallace erbyn hyn yn derbyn cydnabyddiaeth ddyledus yn gyd-sylfaenydd damcaniaeth esblygiad pethau byw gyda Charles Darwin. Nid llawer sy'n gwybod bod Wallace a Darwin yn gyd-awduron y papur cychwynnol ar y ddamcaniaeth newydd a ddarllenwyd gerbron cymdeithas nodedig yn Llundain. Mae Elwyn yn awdur sawl ysgrif a llyfr yn Gymraeg ar Wallace.

Methais innau â bod yn y cyfarfod oherwydd roeddwn yn yr awyr yn dychwelyd o wyliau. Mae'n arfer gen' i ar y cyfnodau hyn o orffwys i fynd â phecyn o lyfrau. Yn y pecyn y tro hwn, heb ddewis bwriadol cyn mynd, oedd y gyfrol Y Sioe, sef detholiad o farddoniaeth Moses Glyn Jones. Dyma un o'r cerddi a ddenodd fy sylw:

**Y Gwyddonwyr Niwcliar**

Agorwyd ganddynt ddrws a fu ynghau:
Â'u hyder aethant hwy i fangre bell;
Lle nad oedd ond distawrwydd ynni'n gwau
Torasant weoedd electronau'r gell.

O labrinth eu parlyrau aethant trwy
Sancteiddrwydd cyfrin cread oedd dan sel,
Ysgythrwyd fformiwlâu eu crebwyll hwy
Ar wyneb memrwn tynged oes a ddêl.

Annileadwy eu llythrennau gwaed:
Ninnau'n ddi-feind a heb adnabod gair
Mewn gwylder mynnwn ddilyn ôl eu traed,
Fel rhai mewn llesmair awn i lawr i'r pair.

A phan ddaw'r caddug ar y grug a'r rhos
Bydd celaneddau' llenwi'r ddistaw nos.

Sôn am fod yn gyd-ddigwyddiad amserol. Roeddwn innau, fel miloedd ar draws y byd, yn gwylio trychineb gorsaf bŵer Siapan. Mae'r gerdd yn haeddu ystyriaeth.

*Neville Evans*

# C. R. I. C. C.




Dyma lun o Tim Harrop-Griffiths a'i fab Elis, yn derbyn 2 docyn ar gyfer gêm Y Gleision y/e Munster, fel gwobr am ennill cystadleuaeth ddiweddar i rieni CRICC.

Cyflwynwyd y wobr, a noddwyd gan Froceriaid Stoc Brewin Dolphin, gan Gareth Llewellyn, un o gyn-flaenwyr amlycaf Cymru sydd hefyd yn un o rieni CRICC.

# Hwyl a Haul yn Nant Gwrtheyrn

Aeth grŵp o ddysgwyr o Gaerdydd i ymuno â dysgwyr o bob rhan o Gymru am benwythnos arbennig yn Nant Gwrtheyrn rhwng 1 a 3 Ebrill 2011.



Mwynheuodd y dysgwyr mas draw wrth fynd am dro i lawr i'r traeth prydferth, ar daith i Feddgelert ac i gartref Hedd Wyn, yr Ysgwrn, yn Nhrawsfynydd lle cwrddon nhw â nai'r bardd adnabyddus – Gerald Williams.

Ymunon nhw yn hwyl Eisteddfod Dysgwyr y Gogledd ar y nos Sadwrn ac enillodd James Dowden o Gaerdydd y gystadleuaeth Unawd! Cymerodd dysgwyr eraill Caerdydd ran yn y gystadleuaeth llefaru a'r grŵp canu hefyd.

Cawsant hefyd y fraint o fod yng nghwmni Dafydd Iwan ar y dydd Sul a arweiniodd y gwasanaeth boreol a chanu caneuon yn cynnwys yr hen glasuron Mae'n Wlad i Mi ac Yma o Hyd.

Dywedodd Gwenllian Willis, Swyddog Dysgu Anffurfiol Caerdydd a Bro Morgannwg, "Mae'n bwysig bod dysgwyr yn clywed yr iaith Gymraeg yn naturiol, yn cael cyfle i ddefnyddio'r iaith, i ddysgu am Gymru ac i fwynhau yn fawr wrth wneud hyn.

"Dyna'n union beth ddigwyddodd yn Nant Gwrtheyrn. Roedd yn gyfle arbennig ac maent i gyd wedi elwa'n fawr ohono".

Mae pob Canolfan Cymraeg i Oedolion yn awyddus iawn i drefnu taith debyg y flwyddyn nesaf yn dilyn y llwyddiant a gafwyd eleni.

Hefyd, mae Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg yn trefnu Cwrs Preswyl arall rhwng 6 a 8 Mai.

**Llun ar dudalen 5**

*Am ragor o fanylion cysylltwch â Gwenllian Willis ar 029 20 879 318 neu willisg1@caerdydd.ac.uk*

# Calendr Y Dinesydd

**Mercher, 4 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ffilm am hanes gwersyll y carcharorion yn Henllan, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 4 Mai**
Merched y Wawr Bro Radur. Brethyn Cartref a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd Capel y Methodistiaid, Windsor Road, Radur, am 7.30pm.

**Gwener, 6 Mai**
Datganiad Organ Awr Ginio gan David Geoffrey Thomas, Organydd Eglwys Gadeiriol Llandaf, yn Eglwys Dewi Sant am 1.15 pm.

**Gwener, 6 Mai**
Clwb Gwawr Caerdydd. Dysgu rhagor am wneud sushi, am 8.00pm. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu dudalen Facebook y clwb.

**Sadwrn, 7 Mai**
Bedwen Lyfrau Caerdydd 2011 yng nghanolfan y 'Gate', Y Rhath, rhwng 10.00am a 5.00pm. Rhaglen lawn o ddigwyddiadau yn ymwneud â byd llyfrau Cymraeg.

**Llun, 9 Mai**
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Ymweld â Gareth Richards y cogydd yn ei gartref yn Llambed.

**Mawrth, 10 Mai**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson yn trafod hen greiriau yng nghwmni Walter Jones. Yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Iau, 12 Mai**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Oedfa Cymorth Cristnogol, dan arweiniad Aled Pickard. Yng nghapel y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30pm.

**Gwener, 13 Mai**
Cyngerdd Cantorion Creigiau, yr Ystafell Ddarllen, Tresimwn, Bro Morgannwg (ar yr A48) am 8.00pm. Tocynnau: £7.00 Manylion pellach: 01446 760608 neu eirlysagwyn@btinternet.com

**Sadwrn, 14 Mai**
Cyngerdd Côr Cantemus, yn y Tabernacl, Yr Ais, Caerdydd.

**Llun, 16 Mai**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyngerdd Côr Caerdydd, yng nghapel Bethany am 7.30pm. Tâl mynediad: £5.

**Llun, 16 Mai**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd yng Ngwesty Churchills am 7.30 pm. Siaradwraig wadd: Siân Lewis (Menter Caerdydd). Manylion pellach: Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Llun, 16 Mai**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. 'Prosiect BLOODHOUND.' Sgwrs gan yr Athro Ken Morgan (Prifysgol Abertawe), yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30pm. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mercher, 18 Mai**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. I fyd y gân yng nghwmni Arwel ac Eleri Peleg Williams, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Gwener, 20 Mai**
Datganiad Organ Awr Ginio gan Robin Baggs, Organydd Ysgol Westonbirt, Caerloyw, yn Eglwys Dewi Sant am 1.15 pm.

**Gwener, 20 Mai**
Clwb y Diwc. Cwis yng nghwmni Keith Bach yn y Duke of Clarence, Treganna am 8.00pm. Mynediad yn £2.

**Sadwrn, 21 Mai**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Astudio cerdd yng nghwmni Dewi George am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

**Sadwrn, 21 Mai**
Cynhelir cynhadledd flynyddol Cristnogaeth 21 yng nghapel Salem, Treganna. Siaradwr gwadd: Dave Tomlinson. Rhagor o fanylion ar www.cristnogaeth21.org.

**Mercher, 1 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Celfi Brynmawr.' Sgwrs gan Dr Eurwyn Wiliam, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Iau, 9 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Yng nghapel Salem, Treganna, am 7.30pm.

**Iau, 9 Mehefin**
Clwb Gwawr Caerdydd. Helfa drysor ar droed ym Mae Caerdydd. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com neu dudalen Facebook y clwb.

**Sadwrn, 11 Mehefin**
Cymdeithas Eglwys y Tabernacl, Yr Ais. Trip y Gymdeithas i Gapel Rydwilym ac Arberth.

**Llun, 13 Mehefin**
Merched y Wawr, Cangen y Bont-faen. Barbeciw.

**Mawrth, 14 Mehefin**
Merched y Wawr Caerdydd. Brethyn Cartre a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mercher, 15 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te pen-tymor a Chyfarfod Blynyddol, am 2.00pm yn festri Capel Minny Street.

**Gwener, 17 Mehefin**
Cymdeithas Carnhuanawc. Helfa Drysor Tafwyl 2011 o amgylch Penarth. Cyfarfod wrth yr orsaf ym Mhenarth am 6.30pm a gorffen yn y 'Windsor'. Arweinydd: Keith Bush.

**Sadwrn, 18 Mehefin**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Astudio'r gerdd 'Y Ffatri'n Cau' (Gwyn Thomas) yng nghwmni Ann Davies ac Amanda Griffiths am 11.00am. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso i bobl nad ydynt yn aelodau o'r Eglwys.

Cymdeithas Cymry Rhiwbeina Bore coffi yn Neuadd Capel Bethany, Heol Llanisien Fach, 10.30-12.00

**Llun, 20 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyfarfod Blynyddol, ac yna noson yng nghwmni Mary Wiliam, yng nghapel Bethany am 7.30pm.

**Sadwrn, 25 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi.

**Sadwrn, 25 Mehefin**
Côr Philharmonig Caerdydd yn perfformio 'Atgof o'r Sêr' gan Robat Arwyn yn Eglwys Dewi Sant am 7.30pm. Tocynnau £8.

**Mercher, 29 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Ymweliad â thre Caerfyrddin a'r Amgueddfa yn Abergwili.

**Sul, 3 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu. Arweinydd: Emyr Roberts; Organydd: Dr Alun Jones. Yng nghapel Beulah am 8.00pm.

**Mawrth, 9 Gorffennaf**
Merched y Wawr Caerdydd. Yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

## Yr Hen Elyn

Mawr fu'r edrych ymlaen at ddydd Sadwrn Mawrth 26ain – Cymru yn erbyn Lloegr o flaen torf o bron 70,000 o gefnogwyr cyffrous mewn gêm bêl-droed yn Stadiwm y Mileniwm. Roedd yr awyrgylch am dri o'r gloch yn drydanol a'r bachgen 20 mlwydd oed o Gwm Rhymni yn arwain tîm Cymru yn obeithiol i'r maes.




Canwyd y gân arferol gan filoedd o ddilynwyr Lloegr oedd am i Dduw achub y Frenhines. Cafodd y datganiad y croeso arferol gan y Cymry 'gwlatgar'. Yn anffodus doedd gan y mwyafrif o'r Cymry pêl-droedaidd fawr o afael ar eiriau 'Hen Wlad Fy Nhadau' a chafodd y datganiad hwnnw y croeso arferol gan y Saeson.


Chwibanodd y gŵr o Bortiwgal i ddechrau'r 'frwydr' ac, yn wir, am ychydig funudau doedd dim sgôr; ond ymhen chwarter awr roedd hi'n ddwy gôl i ddim i Loegr ac, i bob pwrpas, dyna ddiwedd y gêm. Bu'n rhaid i'r cefnogwyr ddioddef yr hanner cyntaf o'r chwarae gwaethaf a welwyd erioed gan dîm Cymru – dim un ergyd ar y gôl drwy'r holl gêm, er bod tair ymdrech 'rygbiaidd' dros y bar yn yr ail hanner. Gellir dadlau i Gymru gael gêm gyfartal yn yr ail hanner pan nad oedd gan Loegr fawr o ddiddordeb mewn sgorio rhagor.

Bu'n ddechreuad torcalonnus i yrfa Gary Speed fel rheolwr gyda record o chwarae dwy, colli dwy; heb sgorio'r un gôl a chwech yn eu herbyn.

'Ein gwrol ryfelwyr….. Wel, doedden nhw ddim yn Stadiwm y Mileniwm ddydd Sadwrn olaf mis Mawrth eleni.

*John Albert*

# Disg Gyntaf Parti'r Efail




Mae CD gyntaf Parti'r Efail allan ac ar y farchnad! Ar ôl cyfnodau o recordio bob yn ail â chystadlu a chynnal cyngherddau daeth y cyfan i fwcwl a chyhoeddwyd "Ambell i gân". Mae'r 14 o draciau yn cynrychioli'r rhaglen amrywiol y bu'r bois o Efail Isaf yn ei chyflwyno i gynulleidfaoedd ledled Cymru ers sefydlu'r parti cyn gŵyl Cerdd Dant Pen-y-bont ar Ogwr 1995. Mae arni ganeuon gwerin digyfeiliant, caneuon o sioeau, emynau a phedwar o osodiadau cerdd dant eu harweinyddes, Menna Thomas.

Ymhlith y traciau, mae'r darn unigryw "Y Parti Cerdd Dant" a achosodd gymaint o hwyl ar lwyfan Prifwyl Glynebwy'r llynedd, wrth i'r parti ddychanu eu hunain a'r gelfyddyd o ganu gyda'r tannau. Cynhelir noson lansio yn fuan – wedi i Barti'r Efail ddychwelyd o'r Ŵyl Ban Geltaidd yn Iwerddon.

Os nad yw'r ddisg wedi cyrraedd eich siop leol, na'r aelodau eisoes wedi gwerthu copi i chi am £10, yna mynnwch eich copi drwy e-bostio partirefail@aol.com gan roi eich manylion cyswllt.

# Dysgwyr y Mochyn Du

Yn rheolaidd, yn y Mochyn Du, am 11.00 bob bore dydd Mawrth, mae grŵp o ddysgwyr yn cwrdd â siaradwyr Cymraeg am baned o goffi a sgwrs. Mae'n gyfle i'r dysgwyr ddatblygu eu geirfa, meithrin hyder a chwrdd â phobl y tu allan i'r dosbarth a siarad am bethau yn y newyddion, am chwaraeon, am fywyd bob dydd, …….am unrhyw beth.

Ond fore dydd Mawrth 12fed Ebrill, roedd rhai ohonom wedi cwrdd yn yr Amgueddfa ar gyfer taith i weld detholiad o luniau â chysylltiad â Chymru sy'n cael eu harddangos yno. Ann Saer, un o'r gwirfoddolwyr sy'n arwain teithiau oedd yn gofalu amdanom. Profiad hyfryd oedd cael gwybodaeth fanwl am bump o'r campweithiau sydd yn hongian yn yr orielau – a hynny yn Gymraeg. Diolch i Fenter Caerdydd am y boreau coffi ac i Ann a Chyfeillion yr Amgueddfa am fore hynod o ddiddorol.

